O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2016 Rhif 638 (Cy. 174)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40, yr A470, yr A483, yr A487, yr A489, yr A458 a'r A5 (Lleoliadau Amrywiol ledled Cymru) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016

Gwnaed *3 Mehefin 2016*

Yn dod i rym *15 Mehefin 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Rhaglan – Llanymddyfri (yr A40), Cefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470), Cefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483), Cefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487), Cefnffordd Caersŵs – Machynlleth (yr A489), Cefnffordd yr Amwythig – Dolgellau (yr A458) a Chefnffordd Llundain – Caergybi (yr A5) ("y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd sy'n deillio o gludo llwythi anwahanadwy annormal.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Mehefin 2016. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40, yr A470, yr A483, yr A487, yr A489, yr A458 a'r A5 (Lleoliadau Amrywiol ledled Cymru) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith o

gludo'r llwythi anwahanadwy annormal sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y cludo" (*"transportation period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 15 Mehefin 2016 ac sy'n dod i ben pan fydd y gwaith o symud y llwythi anwahanadwy annormal wedi ei gwblhau;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" (*"the lengths of the trunk roads"*) yw'r darnau o brif gerbytffyrdd, cylchfannau a chilfannau Cefnffyrdd yr A40, yr A470, yr A483, yr A487, yr A489, yr A458 a'r A5 yn Siroedd Caerfyrddin, Powys, Ceredigion, Gwynedd a Wrecsam a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cludo, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

Cymhwyso

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 3 Mehefin 2016

Richard Morgan
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.

(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru

YR ATODLEN

CEFNFFORDD YR A40

Y darn o Gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chefnffordd yr A483 yn Llanymddyfri yn Sir Gaerfyrddin i gyfeiriad y dwyrain hyd at ei chyffordd â Chefnffordd yr A470 wrth Gylchfan Tarrell yn Aberhonddu ym Mhowys.

CEFNFFORDD YR A470

Y darn o Gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chefnffordd yr A438 ym Mhont-y-bat, Llanfilo, Aberhonddu ym Mhowys i gyfeiriad y gogledd hyd at ei chyffordd â Chefnffordd yr A44 wrth Gylchfan Llangurig ym Mhowys.

Y darn o Gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chefnffordd yr A489 i'r de o Gaersŵs ym Mhowys i gyfeiriad y gogledd-orllewin hyd at ei chyffordd â Chefnffordd yr A458 wrth Gylchfan Mallwyd yng Ngwynedd.

CEFNFFORDD YR A483

Y darn o Gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chefnffordd yr A40 yn Llanymddyfri ym Mhowys i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain hyd at ei chyffordd â Ffordd Sirol yr A44 wrth Gylchfan y Groes ym Mhowys.

Y darn o Gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r Ffordd Sirol ddiddosbarth wrth y Tolldy, Llanddewi ym Mhowys i gyfeiriad y gogledd hyd at ei chyffordd â'r A489 Ffordd Dolfor yn y Drenewydd ym Mhowys.

Y darn o Gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chefnffordd yr A458 wrth Gylchfan Buttington, y Trallwng ym Mhowys i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain hyd at ffin Cymru/Lloegr ger cyffordd y Ffordd Sirol ddiddosbarth ym Mhen-y-foel, Llanymynech ym Mhowys.

Y darn o Gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chefnffordd yr A5 wrth Gylchfan Halton yn Wrecsam i gyfeiriad y gogledd hyd at ffin Cymru/Lloegr yn Pulford Brook, Swydd Gaer yn Wrecsam.

Y darn o ffordd ymuno tua'r de Cefnffordd yr A483 wrth Gyfnewidfa Rhostyllen sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r gylchfan sy'n cysylltu ffyrdd Sirol yr A5152 a'r B5605 hyd at y man lle y mae'n uno â phrif gerbytffordd tua'r de Cefnffordd yr A483.

Y darn o gilfan cerbytffordd tua'r de Cefnffordd yr A483 rhwng cyffordd yr A458/yr A483/yr A490 wrth Gylchfan Sarn y Bryn Caled, y Trallwng ym Mhowys a chyffordd y B4381 wrth Gylchfan The Old Station ar ran ddeheuol Ffordd Osgoi'r Trallwng ym Mhowys.

Y darn o gilfan cerbytffordd tua'r gogledd Cefnffordd yr A483 sydd wedi ei lleoli 620 o fetrau i'r de o gyffordd y B4385 yng Ngarthmyl ym Mhowys.

Y darn o gilfan cerbytffordd tua'r de Cefnffordd yr A483 sydd wedi ei lleoli tua 820 o fetrau i'r de o gyffordd 4 yr A525 yn Rhostyllen yn Wrecsam.

Y darn o gilfan cerbytffordd tua'r de Cefnffordd yr A483 sydd wedi ei lleoli tua 820 o fetrau i'r de o gyffordd 7 y B5102 yn yr Orsedd yn Wrecsam.

Y darn o gilfan cerbytffordd tua'r de Cefnffordd yr A483 sydd wedi ei lleoli ychydig dros 2 gilometr i'r de o gyffordd 7 y B5102 yn yr Orsedd yn Wrecsam.

CEFNFFORDD YR A487

Y darn o Gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chefnffordd yr A44 yn Llanbadarn Fawr, Aberystwyth yng Ngheredigion i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain hyd at ei chyffordd â Ffordd Sirol yr A493 ym Mhont ar Ddyfi, Machynlleth ym Mhowys.

CEFNFFORDD YR A489

Y darn o Gefnffordd yr A489 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chefnffordd yr A470 wrth Gylchfan Glantwymyn ym Mhowys i gyfeiriad y de-orllewin hyd at ei chyffordd â Chefnffordd yr A487 ym Machynlleth ym Mhowys.

CEFNFFORDD YR A458

Y darn o Gefnffordd yr A458 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chefnffordd yr A483 wrth Gylchfan Sarn y Bryn Caled a Chyffordd Flash yn y Trallwng ym Mhowys i gyfeiriad y gorllewin hyd at ei chyffordd â Chefnffordd yr A470 wrth Gylchfan Mallwyd yng Ngwynedd.

CEFNFFORDD YR A5

Y darn o Gefnffordd yr A5 sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr yn y Waun (Afon Ceiriog) yn Wrecsam i gyfeiriad y gogledd hyd at ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cefnffordd yr A483, gan gynnwys y gerbytffordd honno, wrth Gylchfan Halton, y Waun yn Wrecsam.